# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Ger y Llan

Dyddiad yr arolygiad: 22/06/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae’r ysgol yn hafan hapus a gofalgar lle mae pawb yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu trin yn deg. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn cyfarch ei gilydd ac oedolion yn gwrtais. Mae athrawon yn darparu profiadau cyffrous i ddisgyblion mewn amgylchedd hamddenol ond gweithgar. Mae hyn yn eu helpu i ddyheu at wireddu arwyddair yr ysgol, sef: ‘gwneud eu gorau glas’, ac i fwynhau dysgu.

Mae arweinwyr yn brofiadol ac yn arwain yr ysgol mewn modd tawel, caredig ac effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau priodol ohonyn nhw eu hunain, o staff ac o ddisgyblion. Maent yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau staff yn glir gyda’r nod o gefnogi disgyblion o bob cefndir a gallu i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau’n glir ac yn eu cyflawni’n effeithiol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a gwella’r ysgol yn drefnus. Er eu bod yn help i arweinwyr ddeall beth sy’n effeithiol a beth sydd angen ei wella, nid ydynt yn ddigon miniog i’w helpu i wneud gwelliannau yn ddigon cyflym.

Mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn llwyddiannus, ac mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cymhwyso’u medrau’n hyderus mewn sefyllfaoedd bywyd ‘go iawn’. Yn gyffredinol, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n briodol ond nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am daenlenni a bas data.

Mae’r rhan fwyaf o staff yn fodelau iaith cadarn ac maent yn annog disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson. Maent yn asesu cynnydd disgyblion yn llwyddiannus ac, ar y cyfan, yn eu cefnogi i symud eu dysgu ymlaen yn briodol. Er hyn, nid yw athrawon bob amser yn annog disgyblion dosbarthiadau hŷn yr ysgol i ddyfalbarhau i wella’u gwaith ymhellach, yn hytrach na’i adael i gwblhau tasgau eraill.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i ddisgyblion, sydd wedi'i seilio ar yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynnig eu syniadau nhw am yr hyn maent am ei ddysgu ac, o ganlyniad, mae gan ddisgyblion berchnogaeth gadarn dros eu dysgu eu hunain.

Un o gryfderau’r ysgol yw’r cydweithio hynod effeithiol sy’n bodoli rhwng athrawon a chynorthwywyr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion ac yn cyfoethogi’r ymdeimlad hyfryd o gymuned sy’n bodoli yn yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a gwella

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’r ystod lawn o fedrau digidol

A3 Sicrhau bod athrawon yn annog disgyblion dosbarthiadau hŷn yr ysgol i ddyfalbarhau yn eu gweithgareddau a chyflawni hyd eithaf eu gallu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/08/2026